YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'


CYF. 36. RHIF 3/4 AWST/MEDI 2014 50c

# Gwasanaeth Dinesig Allerton

Braf oedd bod yn rhan o wasanaeth dinesig y gymuned o amgylch Capel Bethel a gynhaliwyd yn neuadd ysgol Calderstones ar bnawn Sul, 22 Mehefin. Roedd Arglwydd Faer Lerpwl, y Cynghorydd Erica Kemp, yn awyddus dros ben i gael cynrychiolwyr o'r holl Eglwysi a chrefyddau eraill i gyfarfod o dan yr un to. Dywedodd fod dyled y gymuned yn fawr i'r cynrychiolwyr gan eu bod yn cyflawni mwy o waith nac unrhyw fudiad gwirfoddol arall yn edrych ar ôl yr henoed a phobl gyda anghenion eraill. Pob bendith iddi yn ei blwyddyn yn Arglwydd Faer ein dinas, gan ei bod wedi cynrychioli Ward Church (sef rhan o Wavertree ac Allerton) ers chwarter canrif. Y bwriad yw gwneud y Gwasanaeth hwn yn un blynyddol a derbyniwyd y swm o £248 fel offrwm gan y gynulleidfa tuag at elusennau yr Arglwydd Faer.



*Yr Arglwydd Faer yn derbyn y gacen fawr o ddwylo cynrychiolydd crefydd Islam*




*Y gacen a wnaed*

*(Lluniau: Dr. John G. Williams)*



*Elan Jones o gapel Bethel yn mwynhau'r danteithion*

**TANYSGRIFWCH I'R**

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**Papur bro mwyaf diddorol y Gymraeg**
**Mae eich tanysgrifiad yn werthfawr i ni;**
**yn werthfawr dros ben**

## YN Y RHIFYN HWN:

Gŵyl yr Adeiladwyr - Newyddion Eglwysi Bethania, Bethel, Seion, Cymdeithas Cymry Lerpwl – Ein Cyfeillion o Gymru – Cronfa Apêl – Dyddiau Cynnar Penmachno


# Eisteddfodau Llanelli

Golygyddol

## – gan D. Ben Rees

Fel un sydd yn dra chyfarwydd â thref y sosban edrychaf ymlaen i ymweld ag Eisteddfod Genedlaethol 2014. Ni fyddaf yno am yr wythnos gyfan fel y byddwn yn fy ieuenctid ac yn nyddiau canol oed. Cofiaf yn dda am Eisteddfod Llanelli yn 1962 gan fy mod yng ngofal stondin ar y Maes, a fy mod wedi cael cyfarfod gyda'r gwleidydd hoff Jim Griffiths. Yr oedd ef yn ŵr rhadlon, yn hoff o bobl, ac yn sgwrsiwr o'r radd flaenaf. Ni ddychmygais y byddwn yn Eisteddfod 2014 yn cyflwyno sgwrs amdano ef a'i frawd o fardd a llenor Amanwy yn y Babell Lên ar bnawn Iau, 7 Awst am 12.30. Ac yn sicr ni ddychmygais y byddai dwy gyfrol Gymraeg yn cael ei cyhoeddi ar gyfer yr Eisteddfod honno, sef cofiant clawr caled a chofiant clawr meddwl o dan y teitl, *Cofiant Jim Griffiths, Arwr Glew y Werin*.

Yr oedd Jim Griffiths yn ŵr profiadol iawn ym mywyd Cymru yn 1962, gŵr a fu'n löwr am flynyddoedd, yn arweinydd Undeb y Glowyr, ac ar fin ei wahodd yn Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru yn 1964. Adnabyddid ef fel eisteddfodwr brwd, yn falch o'i frawd Amanwy, a fu bron ennill Coron Aberafan yn 1932. Yn ôl Cynan, bardd gwych, Amanwy oedd yn haeddu'r Goron ond anghytunai Caradog Pritchard a Wil Ifan ag ef.




Eisteddfod gofiadwy oedd Eisteddfod Llanelli 2000 a chawsom flasu nifer dda o gyfarfodydd a chwrdd fel y gwnawn a ffrindiau hen a newydd ar faes y Brifwyl. Gwn fod o leiaf rhyw ddeg ohonom o blith Cymry Lerpwl yn bwriadu mynychu Eisteddfod 2014. Wrth gofio Eisteddfodau ddoe adroddaf englyn godidog Gerallt Lloyd Owen i mi fy hun:

*Dydd byr yw pob diwedd byd; anadliad*
*Yw cenhedlaeth hefyd;*
*Nid yw Hanes ond ennyd;*
*A fu ddoe a fydd o hyd.*

# Dymuno'n dda i Marged Jones, Penbedw

Sioc i ni yn Garth Drive oedd derbyn y newydd ar 18 Mehefin fod y chwaer weithgar o Benbedw, Mrs Marged Jones yn bwriadu symud cyn diwedd y gwyliau i fyw i Rhuthun yn Nyffryn Clwyd. Mae hynny yn gwbl ddealledig gan fod y ddau fab yn byw naill ai yn y dref neu yn agos i'r dref farchnad hyfryd yr ymfudodd gymaint o Gymry'r Glannau iddi yn ystod y chwarter canrif diwethaf.

Un o Rhosygwaliau ger Y Bala ydyw Mrs Marged Jones ac y mae deugain mlynedd a mwy ers i mi gyfarfod â hi am y tro cyntaf a hynny yn Llanfihangel Glyn Myfyr lle yr oedd hi a'i phriod y Parchedig Idwal Jones yn byw ar y pryd.

Bu gennyf ran bwysig yn nyfodiad y ddau i Benbedw yn 1981. Diolch i sgwrs a gefais mewn Sasiwn gyda'r Parchedig Idwal Jones, gweinidog gofalaeth Llwyngwril, cawsom weinidog arall i Cilgwri. Roedd yn bregethwr grymus ac yn fugail gofalus a'i briod yn weithgar a charedig. Ond ar 22 Tachwedd 1983 collwyd y gweinidog da a'r cyfaill hoff Idwal ar ôl cystudd byr ac yntau yng nghanol ei ddyddiau. Gofynnwyd imi arwain yn yr arwyl ac i drefnu Cyfarfod Coffa a bu gennyf ran yng ngofal Marged i gartrefu ym Mhenbedw lle y gwnaeth gyfraniad enfawr a'i hethol yn flaenor yn Salem, Laird Street ugain mlynedd i eleni. Yr oedd mor ddibynadwy ym mhob cyfrifoleb a ddaeth i'w rhan, yn arbennig fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau ac ar ôl marwolaeth Mr. Walter Rees Jones yn Ebrill 2001 bu yn ohebydd dros Salem a Seion i'r *Angor*. Gwelodd y gynulleidfa yn lleihau y deg mlynedd ar hugain diwethaf ond ni laesodd ddwylo. A chredaf fod Marged Jones a Iris Hughes-Jones (ei chyd-arweinydd) a'r ffyddloniaid ar bnawn Sul yn Seion, Laird Street, yn haeddu ein gwrogaeth o fewn yr enwad a'r gymuned Gymraeg a Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain. Gwerthfawrogwn fel teulu gyfeillgarwch Marged Jones inni oll a dymunwn arweiniad y Duw y bu hi yn ei gydnabod o'i phlentyndod i weddill y daith. Ni bu bywyd yn hawdd o bell ffordd iddi a wynebodd ar brofedigaethau ac afiechyd gyda hyder y disgybl a ffydd a graslonrwydd y Cristion. Nid un am ffws ydyw ond un sy'n caru'r encilion ond yn gwbl ymroddedig i waith y Deyrnas. Diolch i Marged Jones am bennod odidig ar lannau Merswy.

**D. Ben Rees**

# CORNEL Y TRYSORYDD

## AWST/MEDI 2014

| | | |
|---|---|---|
| Mr a Mrs Ralph Jones | Llanberis | £20.00 |
| Mrs Mair Evans | Amlwch | £15.00 |
| Mr a Mrs Idris Roberts | Allerton | £25.00 |
| Miss Glenys Jones | Old Swan | £30.00 |
| Er Côf am Mrs Nan Lewis | Bethania | £10.00 |
| Mr a Mrs John Lyons | Knowsley Village | £30.00 |
| Mrs Sian Barker | Allerton | £15.00 |
| Dr Rhys Davies | Efailnewydd | £15.00 |
| Mrs Nerys Jones | Aigburth | £15.00 |
| Mrs Gwerfyl Bain | Allerton | £15.00 |
| Mrs Mair Jones | Childwall | £15.00 |
| Mr Geraint Evans | Amlwch | £15.00 |
| Mr Gwynfor Davies | Widnes | £12.00 |

**Cyfanswm £232.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Gŵyl Gampus!*

# Gŵyl yr Adeiladwyr, Mehefin 2014

## *gan un oedd yn bresennol*


Adeiladwyd y rhan fwyaf o ddinas Lerpwl gan adeiladwyr o Gymru, a'r flwyddyn hon penderfynodd Dr. D. Ben Rees ac aelodau Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi gofio hyn mewn Gŵyl arbennig a gymerodd le ar y penwythnos 7fed ac 8fed o Fehefin.

Ar y bore Sadwrn cawsom dderbyn gwledd o ddwy ddarlith yn y Ganolfan yn Auckland Road. Daeth cynulleidfa foddhaol ynghyd a chan y traddodwyd y ddwy ddarlith yn Saesneg, roedd cyfeillion Saesneg wedi ymuno â ni i glywed yr hanes a gweld lluniau ar y sgrin gyda chynorthwy'r 'Power Point'. 'Roedd y ddarlith gyntaf am 10.30 y bore gan Dr. Gareth Carr, Wrecsam ar Richard Owen ac adeiladwyr eraill. Llywyddwyd gan Mr. Ted Clement-Evans, ei hun o deulu o adeiladwyr Cymraeg. Cyflwynodd Dr. Gareth Carr i ni. Ganwyd ef ym Mhorth Talbot. Daeth i Lerpwl yn y flwyddyn 1986 i'r Coleg Pensaernïaeth lle yr ymchwiliodd i fywyd a gwaith Richard Owen (1831-1891). Bu'n aelod am bum mlynedd yng nghapel Heathfield Road.

Ymgymerwyd â'r dasg o ddatblygiad trefol Lerpwl gan Gymry a'u teuluoedd oedd wedi symud yma i fyw. 'Roedd Gogledd Cymru yn ffynhonnell gyfoethog o ddefnyddiau adeiladu, ac oherwydd hynny 'roedd monopoli adeiladu gan y Cymry. 'Roedd llawer iawn ohonynt â'r enwau Jones, Williams, Hughes ac yn y blaen. Mae bron i bedwar cant o gofnodion am adeiladwyr Cymraeg ar gael. 'Roedd yn ddoniol clywed rhai o'r llys-enwau a ddefnyddiwyd gan y Saeson am yr adeiladwyr, fel Porky



**_Dr. Gareth Carr a Ted Clement Evans_**



**_Dr. D. B. Rees a Mrs Nia Antonia_**

Williams, Wiggy Roberts, Australian Williams, Deaf Tom, Tom Tom, Footy Tom, Windy Bob a Bob the Liar. Y mwyaf adnabyddus oedd J. R. Jones ac ysgrifennodd ef lyfr am yr adeiladwyr Cymraeg. Gadawodd ni gyda rhestr o 385 ohonynt. Daeth y drydedd ran ohonynt o Fôn. Sonia J. R. Jones am y diffyg o eiriau cymwys i'w defnyddio ynglŷn â phensaernïaeth yn yr iaith Gymraeg. 'Roedd tai yn cael eu galw'n "courts" ar y dechrau. Erbyn 1841 'roedd 56,000 o bobl yn byw mewn cyflwr enbyd. Ym 1842 pasiwyd deddf oedd yn mynnu ar fesurau arbennig i wneud y "courts" yn fwy sylweddol. Adeiladwyd strydoedd ohonynt, hynny yw, rhesi o dai.

Daeth Richard Owen i Lerpwl o Gaernarfon. Roedd ganddo ei swyddfa ei hun yn Everton pan yn ddeg a'r hugain oed. Dechreuodd drwy gynllunio swyddfeydd a mynd ymlaen i gynllunio adeiladau gwych fel Capeli Cymaeg Fitzclarence Street yn Lerpwl, Castle Square Caernarfon, Mynydd Seion Abergele, Salem Penmachno a Bryn Mawr Betws y Coed. Roedd ganddo gynlluniau neo-glasurol a Gothig, gan ddefnyddio calchfeini lleol. Cynlluniodd sawl adeilad seciwlar hefyd, fel ariandai ac ysgolion. Roedd Richard Owen yn fwy cyfrifol am ehangu dinas Lerpwl na'r un adeiladwr arall. Gwelsom luniau o gynlluniau penseiri ar gyfer ystadau o dai yn Lerpwl tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gellir gweld yn yr archifau pa pensaer oedd yn gyfrifol am ba adeiladau. Mae llawer enghraifft yn Archifdy Cyhoeddus Lerpwl.

Gwelsom lun o dai yn Stonewall Street, Everton. Adeiladwyd sawl ystad yn Everton, fel ystâd Campfield a chwalwyd yn chwedegau y ganrif ddiwethaf. Sefydlwyd Masnach Goed yn Lerpwl gan David Roberts o Lanrwst (1806-1886). Medrai werthu mahogani yn Lerpwl ac ym Mhenbedw.

Adeiladwyd pedair ystâd yn Toxteth gan Richard Owen. Gwelsom ddarnau o lythyrau a ysgrifennodd, un ohonynt i'r *Goleuad*. Os nad oedd yn hapus gyda chynnwys papur newydd, byddai'n gadael iddynt wybod hynny!

Gwelsom lun ohono gyda barf enfawr, llun a dynnwyd gan John Thomas (1838-1905), un arall y clywsom lawer amdano mewn Gŵyl yma yn ddiweddar. Yn sicr, 'roedd gan Dr. Gareth Carr stôr o ffeithiau am yr adeiladwyr Cymraeg ar ben ei fysedd.

Traddodwyd yr ail ddarlith ar y bore Sadwrn, '*Welsh Builders of Merseyside'* gan y Parchedig Athro D. Ben Rees. Llywyddwyd gan Mrs Nia Antonia, hithau o deulu o adeiladwyr Cymraeg. Wrth gyflwyno'r darlithydd, dywedodd i'w thad, Mr. Howel Vaughan Jones, un o bedwar brawd, fynd gydag eraill i Dde Cymru i glywed Dr. D. Ben Rees yn pregethu ac yna yn ei wahodd i ddod i Lerpwl yn Weinidog. Dywedodd ei fod yn ysgrifennwr ardderchog ac yn llysgennad gwych i Gymry Glannau Mersi. Cawsom weld llawer o luniau diddorol eto yn ystod yr ail ddarlith. Dywedodd Dr. Rees wrthym fod perthynas agos rhwng yr adeiladwyr a'r capeli Cymraeg. Soniodd am William Rees (Gwilym Hiraethog) gan ddweud ei fod yn bolymath. Ef a ddechreuodd y

papur newydd Cymaeg cyntaf yn Lerpwl, sef *Yr Amserau*. Daeth ei frawd, Henry Rees, yma fel gweinidog Capel Cymraeg Chatham Street, adeilad ardderchog. Bu Dr. Arthur Thomas, Ysgrifennydd y Pwyllgor Etifeddiaeth, yn gweithio am flynyddoedd yn yr adeilad hwn. Gosodwyd plac arno gan Gymdeithas a sefydlodd Dr. D. Ben Rees. Gwelsom lun o Gapel Princes Road yn Toxteth. Adeiladwyd ef gan Edward R. Jones, sef hen daid Mr. Ted Clement Evans. 'Roedd Edward R. Jones yn efengylydd brwdfrydig a adeiladodd neuaddau cenhadol. Cynorthwyai genhadon yn yr India, fel Dr. R. Arthur Hughes. Dr. David Saunders oedd gweinidog cyntaf Princes Road, a chafodd y Cymry eu dymuniad o gael adeilad uwch na'r un yn perthyn i'r Saeson, i'r Gwyddelod na'r Albaniaid. Cyn adeiladu'r ddwy gadeirlan, Capel Cymraeg Princes Road oedd y adeilad uchaf yn y ddinas. Dechreuodd William Jones o Gerrig y Drudion adeiladu yma. Setlodd i lawr yn Catharine Street a adeiladwyd ganddo ac a enwyd ar ôl ei fam. Adeiladodd ef yr holl rwydwaith o reilffyrdd rhwng Lerpwl a Manceinion. Camp enfawr. Bu'n garedig tuag at Gerrig y Drudion, gan roddi Ysgol ac yn y blaen i'r ardal.

Clywsom am Hugh Jones, T. Llewelyn Jenkins, ac Owen Hughes a fu'n Ysgrifennydd Capel Heathfield Road am hanner can mlynedd. Gwelsom lun o Romer Road a adeiladwyd gan R. E. Jones o Fôn. Adeiladodd lawer o dai yn Kensington. Ef hefyd a adeiladodd dai Channell Road. Adeiladodd taid Mr. Ted Clement Evans lawer o strydoedd yn Aigburth. Gwelsom luniau o Alwyn Street, Errol Streetr, Sandhurst Road, Chequers Gardens, Gwydrin Road a Green Lane. Adeiladwyd Towers Road gan O. C. Roberts a Dunbabin Road gan John Lloyd. 'Roedd J. W. Jones yn adnabyddus iawn mewn cylchoedd Cymraeg. Daeth yma o Glwyd pan yn



**Tucsedos Blêr**

ddeunaw oed. Ymunodd â chwmni David Roberts fel saer, yna dechreuodd adeiladu ar ben ei hun. Aeth mewn partneriaeth â Richard Jones. 'Roedd ganddo bedwar mab, Roland, W. Glyn Jones, Trefor a Howel Vaughan Jones, sef tad Mrs Nia Antonia. Ymunodd y pedwar â'u tad yn ei waith. 'Roedd yr adeiladwyr Cymraeg yn hunan gynhaliol, gyda'u hariandai a'u gwerthwyr eiddo eu hunain. Ymwelai J. W. Jones â phobl y capel yn gyson bob pnawn Iau. Daeth yn gynghorydd dros Allerton ac yn aelod o bwyllgor gwaith Y Genhadaeth Dramor.

'Roedd yr adeiladwr Henry Williams yn flaenor yng Nghapel Heathfield Road, ac hefyd George Jenkins a ddechreuodd adeiladu yn Lerpwl, yna mynd i'r America, ond dychwelyd, adeiladu Karslake Road a byw yno ei hun. Mae dwy nith iddo, Moira ac Esmé Jenkins yn byw yn Eaglehurst Road, Gateace yn bresennol.

Adeiladwyd Barrington Road gan John Jones, tad J. R. Jones. Adeiladodd blasdy o'r enw Mayfield yn Dudlow Lane ym 1906. Bu farw yn 51 Dudlow Lane ym 1936. Gwelsom luniau o Cunard Street a adeiladwyd gan John Hughes, tad ein diweddar flaenor, Mr. Elwyn Hughes. Adeiladwyd Gorsaf Dân Allerton a hen Faes Awyr Speke gan John Lewis, Courtland Road, Allerton.

Cafwyd gair ar ddiwedd y ddarlith gynhwysfawr hon gan Jonathan Brown ar ran yr Ymgyrch achub y strydoedd Cymraeg ("the Welsh streets") rhag cael eu dymchwel. Mae'n obeithiol y bydd pethau'n mynd yn ffafriol a'r tai'n cael eu hachub. Dyna yw ein dymuniad ninnau, Gymry Lerpwl.

Mwynhawyd y ddwy ddarlith yn fawr a chawsom ddysgu llawer am adeiladwyr Cymraeg ein dinas.

Yn yr hwyr cafwyd cyngerdd gan y Tucsedos Blêr, grŵp o bedwar gŵr ifanc, Dyfan, Ifor Rhys, Eirwyn a Dafydd o ardal Rhuthun a'r cyffiniau. Mae eu lleisiau'n asio'n wych. Cawsom un o ganeuon Y Beatles, *Blue Moon* o'r pumdegau, cân werin, *Ar Lan y Môr* a *Moliannwn*, cân Bob Roberts, Tai'r Felin, yn y rhan gyntaf.

Llywyddwyd gan Dr. D. Ben Rees a chawsom anerchiad pwrpasol gan Mr. Roderick Owen. Yn yr ail ran cawsom



**Roderick Owen yn annerch**



**Eric y pregethwr yn sgwrsio gyda Olwen Jones**



*Parchedig Eric Greene, Y Bala*

glywed *Yr Hen Wraig Fach,* cân Tom Jones, *Delilah*, anthem Affricanaidd a dwy gân o eiddo Eirwyn. Mae gan y grŵp albwm yn dod allan yn fuan. Dymunwn yn dda iddynt.


Roedd diweddglo hyfryd i Ŵyl yr Adeiladwyr ar y bore Sul gyda gwasanaeth a baratowyd gan Dr. D. Ben Rees. 'Roedd pamffled i bawb gyda'r gwasanaeth wedi ei osod allan. Y teitl oedd *'Gŵyl yr Adeiladwyr. Oedfa i ddiolch am Adeiladwyr Cymreig a fu mor ddylanwadol yn adeiladu rhannau helaeth o Lerpwl.'* Llywyddwyd gan Dr. D. Ben Rees a'r organydd oedd Mrs Margaret Anwyl Williams. Cymeryd rhan gan aelodau'r  Pwyllgor Etifeddiaeth, y Llywydd Dr. Pat Williams, Mr Brian Thomas, Dr. Arthur Thomas, Mrs Elin Bryn Boyd a Mrs Nan Hughes Parry, a chawsom homili gan y Parchedig Eric Greene, Y Bala. Roedd ei destun o Epistol Cyntaf Paul at y Corinthiaid.



*Rhan o'r gynulleidfa*

Soniodd am adeiladwyr y Beibl, yn dechrau gyda Noa, yna tŵr Babel ar adeiladu gan Solomon. Roedd yr adeiladwyr yn ninas Lerpwl wedi gwneud yn siwr fod yma gapeli. Clywsom am ail-adeiladu muriau Jerusalem wedi'r gaethglud. 'Roedd Nehemeia yn ŵr ymarferol ac ysbrydol a derbyniodd y gwahoddiad i ail adeiladu. Dywed mai trwy gymorth Duw y llwyddodd yn ei waith. Rydym angen dynion a merched fel Nehemeia yn ein dydd ni. Yn y Testament Newydd, nid adeilad oedd Eglwys, ond pobl. Ffydd yng Nghrist yw sylfaen adeiladu. Ar Sul y Pentecost dywedodd y Parchedig Eric Greene fod angen yr Ysbryd Glân arnom i gyd er mwyn adeiladu gwir Eglwys i Iesu Grist. Roedd rhannau i'r gynulleidfa uno yn y gwasanaeth a bu'r Oedfa'n fendithiol i bawb.

Diolchwn i bawb a fu'n trefnu ac i bawb a gymerodd ran yng Ngŵyl yr Adeiladwyr, Gŵyl a hir gofir ac a wnaeth gyfiawnder â'r adeiladwyr gwych o Gymry a adeiladodd dros gan mil o dai yn ninas Lerpwl.




*Cynllun o'r Deml yn yr oedfa*
*(o waith Brian Thomas)*

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NEWYLLIANT EIN CENEDL'

PAPUR BRO SAFONOL YN DIBYNNU AR GYFRANIADAU GWIRFODDOL O FIS I FIS

e-bost– benatgarthdrive@talktalk.net

Saflewe - Cymrylerpwl.co.uk

***Golygydd ers 1979:***
Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive,
Lerpwl/Liverpool L18 6HW

***Cadeirydd:***
Dr. John G. Willams,
Calderstones, Lerpwl

***Trysorydd:***
Roderick Owen,
Maes-hir, 21 Drennan Road, Allerton,
Lerpwl/Liverpool L19 4UA.

***Ysgrifennydd:***
Ben Hughes, 12 Kenilworth Road,
Childwall, Lerpwl

Pris yr Angor am flwyddyn trwy'r post
£11.00

# CYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL 2014

**Cynhelir y gystadleuaeth uchod yng Nghlwb Golff Woolton, Ffordd Speke, Lerpwl L25 7TZ ar Ddydd Mercher, 10 Medi.**





Mae'n agored i ferched a dynion.
Bydd yr holl elw'n cael ei roi i Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi tuag at ddathliadau y flwyddyn nesaf i nodi 150 mlynedd ers mordaith y 'Mimosa' i Batagonia o Pier Head, Lerpwl.

Cost £35 yr unigolyn neu £130 am dîm o bedwar yn cynnwys cinio ysgafn, gêm 18 twll, swper a gwobrau anhygoel !!
*Am fwy o fanylion cysylltwch â*
*Dr John Williams ar*
doctorjohnwilliams@btinternet.com

*Newyddion o*

# Lannau Mersi a Manceinion

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Dyma hi yn dymor y cynhaeaf, y ffermwyr a'r garddwyr yn ddiwyd yn cynaeafu, a'r tywydd yn ddelfydol iddynt yn eu gwahanol orchwylion. Wedi'r llafur bydd modd i bawb ymlacio a mwynhau eu hunain. Rhywbeth at ddant pawb. Y Sioe Frenhinol ac amryw i sioe arall. Eisteddfod Llangollen a'r Genedlaethol. Beth bynnag ydi eich diddordebau mwynhewch eich hunain yr haf hwn.

Dyma geisio cynaeafu ychydig i'r *Angor*, er mae prin yw'r newyddion o Benbedw. Un newydd calonogol, mae Mrs Margaret Jones, New Brighton wedi gwella yn dda. Mae gartref wedi treulio rhai wythnosau yn Ysbyty y 'Cottage' yn Hoylake, ac mae yn ôl yn ei sedd arferol yn Seion bob pnawn Sul. Gwelsom eich colli. Yr un modd collwn yr aelodau fyddai yn arfer ymlwybro mor ffyddlon i'r oedfaon, cyn i lesgedd y corff eu hatal. Anfonwn ein cofion at un ag oll heb enwi neb. Mwynhewch yr Haf a'r heulwen yn y gobaith y cawn eich croesawu yn ôl i Seion. Nid oes dim yn amhosibl gyda Duw. Bendith arnoch braidd Seion.

Mae yn debyg mae dyma'r adroddiad olaf gennyf i'r *Angor*. Diolch am roi i fyny hefo mi ar hyd y blynyddoedd, Manteisiaf ar y cyfle yma i ddymuno yn dda i'r sawl fydd yn ymgymeryd â'r swydd dros eglwys Seion. Un apêl fach garedig i aelodau'r capel – os bydd gennych newyddion **os gwelwch yn dda** dywedwch wrth y gohebydd. Mae pobl yn gyndyn o wneud hyn, ac heb wybodaeth nid oes dichon gwneud y gwaith fel ag y dylid. Diolch yn fawr,

*Yr eiddoch*
*Marged Jones*

## YMDDIRIEDOLWYR NEWYDD I ELUSEN DEWI SANT YN LERPWL

Yr unig elusen eglwysig yn Lerpwl ydyw Elusen St. David's Welsh Trust, ac am flynyddoedd cafwyd gwasanaeth y Parchedig D. Geoffrey Davies, Miss Muriel Jones a Mrs Mona Williams. Oherwydd oedran ac anawsterau'r eraill mynegodd y tri awydd i ymddiswyddo fel Ymddiriedolwyr a chynigiwyd enwau tri arall i'w dilyn. Derbyniodd y tri hyn ei dyletswyddau o fod yn Ymddiriedolwyr a gweithredu yn ôl gofynion y cyfansoddiad.



Nerys Cooke

*O'r chwith i'r dde – Mr. John Lyons (Trysorydd), y Parchedig Rick Patel (Archddiacon Esgobaeth Lerpwl a Chadeirydd), Parchg. Ddr. D. Ben Rees (Ysrifennydd).*

Dymunir yn dda i'r tri yn y cyfrifoldebau newydd.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Daeth y newydd i'n plith fod yr annwyl Marged Jones, Penbedw yn symud i fyw i Ddyffryn Clwyd a bydd chwithdod gan nifer ohonom ym Methania o'i gweld hi yn mynd allan o'n cyrraedd. Hoffem ar ran Capel Bethania ddymumo yn dda iddi gan y bu yn arweinydd cymeradwy iawn yn Henaduriaeth Lerpwl. Llesteiriwyd hi gan ei hiechyd i deithio i gyfarfodydd yr Henaduriaeth fel y gwna rhai ohonom o hyd. Un o'r materion sydd ger ein bron ar hyn o bryd ydyw ail sefydlu Caplaniaeth Glannau Mersi. Y mae angen mawr arnom a chawsom flynyddoedd o wasanaeth y Caplaniaid a fu gennym o 1984 i 2010. Y mae galwadau yr Ysbytai, gwaith yr ifanc trwy'r Prifysgolion, ymweliadau a chartrefi henoed a chynorthwyo'r capeli yn agenda helaeth, heblaw cymeryd rhan yn ein llysoedd a'n galwadau mynych i Gymru. Lluniwyd rhaglen waith yn barod a gobeithiwn y bydd gennym newyddion da i'w rhannu yn 2015.

## Anrhydedd i Gymraes o Warrington

Yn ddiweddar, cafwyd newyddion hyfryd oddi wrth Rosina a Warren Whalley, cyfeillion ffyddlon a chefnogol i'r Capel Cymraeg yn Warrington cyn iddo gau eleni. Cafodd y ddau eu henwi ar restr y rhai yn cael eu hanrhydeddu gan y Frenhines am eu gwaith parhaus a bendigedig yn ffostro plant bach dros y blynyddoedd. Gwyddom fod Rosina wastad wedi mynnu dod â'r babis i'r oedfa Gymraeg ar Nos Sul iddynt glywed y canu a bod yn fendith i'r gynulleidfa. Credaf i hyn fod yn brofiad dylanwadol ar y plant hefyd mewn ffordd ddirgel.

Mae Rosina a Warren yn aelodau selog yn yr Eglwys Anglicanaidd yn Warrington ac yn drefnwyr a chefnogwyr brwd o glwb rygbi'r ddinas. Rydym i gyd yn edmygu eu gwaith gyda'r ieuenctid a'u personoliaethau hoffus ac agos atoch chi. A does dim pallu ar eu hymdrechion er bod y blynyddoedd yn mynd heibio. Fe fydd y ddau yn mynd i Buckingham Palace i dderbyn yr MBE yn y misoedd nesaf. Llongyfarchiadau mawr iddynt a boed i Dduw eu bendithio yn gyson yn y dyfodol.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl 15/18

Mae rhai ohonom yn cofion y ddiweddar Mrs Gwyneth Roberts, Abergele, pan oedd yn Miss Gwyneth Williams ac yn byw yma yn Lerpwl. Bu'n aelod yng nghapeli Douglas Road, Garston ac am ychydig amser, Bethel, Heathfield Road. Bu farw yn Ysbyty Glan Clwyd ar Fai 28. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist, Abergele, ac yna yn Amlosgfa Bae Colwyn dan ofal ei gweinidog, y Parch Ifor ap Gwilym ar Fehefin 6. 'Roedd Gwyneth yn un o'r annwylaf o Gymry Lerpwl a phawb yn meddwl yn uchel ohoni. Bu ei llys-ferch, Mrs Carys Walford a'i phriod Rob yn ofalus iawn ohoni. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r ddau ac â'u teulu yn eu profedigaeth. Ein cydymdeimlad llwyraf hefyd â Mr. Myron G. Jones, Calderfield Road, yn ei brofedigaeth lem o golli ei fam, Mrs Buddug Jones. Byddai'n dod atom yn gyson i'n Cinio Gŵyl Ddewi a phawb yn falch iawn o'i chwmni. Roedd ganddi bersonoliaeth hyfryd. Meddyliwn am y teulu i gyd.

Bu cynrychiolaeth o Lerpwl a Phenbedw yng Nghynulliad Chwiorydd Henaduriaeth Y Gogledd Ddwyrain yn Eglwys Oaker Avenue, Manceinion, ar brynhawn Mawrth, Mehefin 3. Mwynhawyd y cyfarfod y fawr. Da oedd cael adroddiadau o'r Dosbarthiadau, ac unawd gan Mr. Trefor Davies, Altrincham ac yna cyflwyniad dwyieithog gan David a Rhiannon Edwards. Mae Rhiannon yn enedigol o Fangor a David o Lerpwl, roedd ei dad yn feddyg yn Eaton Road, West Derby. Mae'r ddau wedi gweithio yn Romania ers 2007 gyda F.A.S.T. (Foundation for Social Assistance and Youth).

Cynhaliwyd Gŵyl yr Adeiladwyr ym Methel ar fore a nos Sadwrn, Meheifn 7 ac ar fore Sul, Mehefin 8. Mwynhawyd dwy

ddarlith ar yr adeiladwyr gan Dr. Gareth Carr, Wrecsam a chan Dr. D. Ben Rees. Cawsom gyngerdd gan y Tucsedos Blêr a gwasanaeth i gloi'r Ŵyl ar y bore Sul. Mae'n diolch yn fawr am yr holl drefnu gan Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi.

Cawsom dri chyfarfod ar nosweithiau Llun yn y Ganolfan dan ofal Dr. D. Ben Rees. Yn y cyntaf rhoddodd i ni gyflwyniad i'r emynydd Benjamin Francis (1734-99). Clywsom am ei fywyd ac astudiwyd a chanwyd rhai o'i emynau. Cyfarfod Agored oedd yr ail gyda thrafodaeth ar wahanol bynciau yn dilyn defosiwn byr. Yn y trydydd cyfarfod cawsom fyfyrdod "O Gopa Mynydd Tabor" gan Dr. Rees. Mae'r rhan fwyaf yn credu mai dyma fynydd y Gweddnewidiad. Wedi trafod y Gweddnewidiad ei hun clywsom gan Dr. Rees am y gwahanol rannau o'r wlad y gellir eu gweld o gopa'r mynydd, gan weld y cyferbyniad cyd-rhwng sefyllfa'r gorffennol a'r presennol. Dangosodd Dr. John G. Williams luniau o'r mynydd a lleoedd ac eglwysi cyfagos trwy ddefnyddio 'power point'.

Meddyliwn am y cleifion. Mae un o'n haelodau ffyddlon, Mrs Enid Hughes Jones, Campbell Drive, wedi dioddef cryn dipyn ac yn dal i ddioddef gyda'r eryr, sydd yn hynod o boenus. Mae Mrs Edna Tomas, Rockbourne Avenue, yn yr Ysbyty Frenhinol am ysbaid a symudwyd Mr. Ken Pritchard i Gartref Preswyl yn Heswall dros dro. Dymunwn adferiad buan i'r tri ac anfonwn ein cofion atynt, at Miss Nansi Pugh a'r Athro David A. Price Evans, y ddau mewn Cartref Preswyl, ac hefyd at Mrs Mary Williams, Mrs Joyce Lewington, Mrs Delyth Morris, Mrs Gwerfyl Jones, Mrs Gwen Jones, Mr Frank Jones a Mr. Gwilym Lewis sydd yn gaeth i'w cartrefi.

Rydym fel aelodau'n falch ryfeddol o'r ffaith fod y plac Cymraeg wedi cael ei osod ar lan yr Iorddonen. Mae hyn y llwyddiant mawr ac yn rhywbeth i Gymru gyfan fod yn falch ohono.

Yn olaf, ond yn bwysig iawn, ein llongyfarchiadau calonog i Miss Lisa Hartley, Hartill Avenue ar dderbyn y gradd o B.A. Dosbarth Cyntaf yn Aberystwyth ac i Miss Elin Roberts, Mayfield Rad, ar dderbyn y gradd o M.Sc. Newyddion ardderchog am y ddwy ferch ifanc a feithriniwyd yng nghapel Bethel ac sydd yn dal yn addurn i'r achos.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Bu pwyllgor y Gymdeithas yn cyfarfod yn dechrau mis Mehefin i baratoi rhaglen yr haf a'r rhaglen am y tymor nesaf sef 2014/15. Diolch i Roderick a Norma am eu gwaith i wneud synnwyr o'n hawgrymiadau.

Digwyddiad cyntaf rhaglen yr haf oedd ein taith gerdded i Barc Penbedw a drefnwyd gan Alun Davies. Agorwyd y Parc yn 1847 ac mae Parc Canolog Efrog Newydd a Pharc Sefton wedi eu cynllunio ar yr un linellau. Mae'r parc yn fawr ac yn gartref i Glwb Rygbi a Chlwb Criced Parc Penbedw. Gwelsom gofeb yn nodi lle bu Gorsedd y Beirdd yn cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol 1917. Cawsom tê yng Nghanolfan yr Ymwelwyr cyn symud ymlaen i Sgwar Hamilton yng nghanol Penbedw. Dyma lle codwyd cofgolofn i'r Frenhines Fictoria lle mae arfbais gwledydd Prydain yn ymddangos gyda arwyddair yn gysylltiedig a phob gwlad – 'Cymru am byth' yw'r un ar arfbais Cymru. Cawsom ein tywys heibio Fferi y Mynych i Briordy Penbedw lle aeth nifer o aelodau dewr y Gymdeithas i fyny tŵr Eglwys y Santes Fair. Mae'n rhaid mynd i Benbedw i weld pa mor drawiadaol mae Lerpwl yn edrych. Diolch i Alun am drefnu diwrnod ardderchog unwaith eto.


Cynhaliwyd ail Gyfarfod rhaglen yr haf ar noson braf yng ngardd Roderick a Norma ym 'Maeshir'. Roedd yn noson gynnes a chafodd pawb gyfle i sgwrsio a bwyta. Gwnaed elw ar y noson tuag at gostau dathliadau Gŵyl y 'Mimosa' y flwyddyn nesaf. Diolch i bawb a fu'n gyfrifol am y noson.

Edrychwn ymlaen yn awr at y Bwffe yng Nghlwb Criced Lerpwl yn niwedd Gorffennaf.

*Lluniau: Dr. J. G. Williams*



***Cofeb Eisteddfod y Gadair Ddu (1917)***



***Cofeb Brenhines Fictoria***



***Gorsedd y Beirdd***



***Noson Goffi y Gymdeithas yng ngardd Maes-Hir***



***Y wledd yn gwahodd***



***Bedd John Laird***

# EIN CYFEILLION O GYMRU



*Gwenfyl Bain a Nerys Jones yn sgwrsio gyda'r grŵp*

**Braf oedd cael cwmni Tucsedos Blêr i Gyngerdd Gŵyl yr Adeiladwyr ym Mehefin**



*Ar ddiwedd y wledd a baratowyd i'r Tucsedos Blêr. Rhoddodd y grŵp rhodd tuag at Apêl Mimosa, 2015.*



*Mair Rees Jones (aelod o Bwyllgor Gwaith yr Angor) yn sgwrsio gyda'r Trysorydd a'i briod*




*Pedair o Gymry Lerpwl a werthfawrogodd y Cyngerdd (o'r chwith) Jennie a Lisa Hartley, Sara Williams a Siân Hartley*

---

Ar bnawn Sul, Mehefin 15 daeth Cymdeithas o Gapel Jeriwsalem, Cerrigydrudion i Lerpwl i'w hebrwng gan y Dr. D. Ben Rees. Tywyswyd hwy i'r Eglwys Gadeiriol Anglicanaidd, oddi yno i'r Eglwys Gadeiriol Gatholig ac i orffen y dydd gyda oedfa yng nghapel Bethel o dan arweiniad y Dr. D. Ben Rees. Canwyd emynau emynwyr Lerpwl a soniodd Dr. Rees am bobl dda Cerrigydrudion a hyrwyddodd bethau gwych y Cymry yn y ddinas, sef William Jones a adeiladodd Catharine Street; T. J. Hughes a sefydlodd gwmni yn London Road, a John Bain a fu mor gefnogol yn Heathfield Road. Tri o'r goreuon.



*Rhan o'r gynulleidfa astud ym Methel*



*Dr. Rees yn annerch y gynulleidfa*

# CYFEISTEDDIAD CHWIORYDD HENADURIAETH Y GOGLEDD DDWYRAIN YM MANCEINION



*Rhai yn cymeryd rhan: (o'r chwith i'r dde)*
***Barch. Eirlys Gruffydd, Mrs Glenys Davies, Barch. Eleri Edwards, Mrs Eflyn Evans, Mrs Lois Murphy, Mrs Mair Swift, Mrs Rhiannon Edwards, Mr David Edwards, Barch Nan Powell-Davies, Mrs Hafwen Davies, Mr Trefor Davies.***

Ar y 4ydd o Fehefin cynhaliwyd Cyfeisteddiad Chwiorydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yng nghapel Noddfa Oaker Avenue pan y daeth cynrychiolaeth dda o Gymru ac o Lerpwl ynghyd ac aelodau lleol at ei gilydd. Croesawyd y gynulleidfa gan y Llywydd, Mrs Mair Swift, ac yna cawsom wasanaeth dechreuol gan aelodau Oaker Avenue ac Altrincham. Yr organydd oedd Mr Gwilym Roberts.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd coffâd gan y Barch Eirlys Gruffydd i Miss Gwen Evans (Llundain) a fu farw ym mis Ebrill. Treuliodd flynyddoedd yn y maes cenhadol yn Mizoram a da oedd cael ein hatgoffa gan Mrs Lois Murphy am ei chysylltiad â Manceinion. Cawsom adroddiadau o waith cenhadol y capeli ym Manceinion, Wrecsam, Lerpwl a Fflint, ac yr oedd y Barch. Nan Wyn Powell-Davies yn bresennol i roi hanes gwaith C.W.M. ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Uchafbwynt y cyfarfod oedd gwrando ar gyflwyniad Rhiannon a David Edwards o Warrington yn adrodd eu hanes yn gweithio gyda teuluoedd di-freintiedig mewn pentref yn Rwmania. Mae Rhiannon yn enedigol o Sir Fôn ac yn gynnyrch y Coleg Normal ym Mangor. Teithiodd hi a'i gŵr David i Rwmania dros ddwsin o weithiau yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf i helpu adeiladu tai i deuluoedd Roma a'i helpu i fod yn hunan-gynhaliol. Fe welsom drwy luniau gan David anghenion mawr y bobl, y cyflwr truenus oedd yn bod yno a'r gwelliannau sydd yn cael eu gwneud yn araf drwy y cynllun F.A.S.T. Ym mis Awst bydd Rhiannon a David yn hedfan allan i Rwmania unwaith eto. Y tro nesaf y byddant yn mynd allan yno yn y car, efallai y gallwn ni gasglu pethau iddynt gael eu cludo gyda hwynt. Dyma waith sydd yn haeddu cefnogaeth – gwaith ardderchog yn wir.

Mae'n amlwg fod y cyflwyniad wedi cyffwrdd y gynulleidfa oherwydd i'r casgliad ar y diwedd fod yn eithriadol o hael. Deallwn mae'r bwriad yw cyfrannu rhan helaeth ohonno i gefnogi'r gwaith yn Rwmania.

Ar ddiwedd y cyfarfod, traddodwyd y fendith gan y Barch Eleri Edwards ac fe orffenwyd y prynhawn gyda sgwrs a phaned o de. Diolchwyd i aelodau Dosbarth Manceinion am y trefniadau taclus a'r croeso cynnes.

# Cronfa Apêl y plac ar lan afon Iorddonen

**Derbyniwyd yn 2013 gan**
**Aelodau Eglwys Bethel Heathfield Road/ Auckland Rd, Lerpwl**

Miss C. E. Williams..........£5.00
Dr. L. A. Williams...........£5.00
Mrs G. Bain..................£10.00
Mrs G. L. Jones..............£10.00
Mrs N. Jones.................£10.00
Mrs M. A. Williams...........£10.00
Miss S. Ff. Williams.........£10.00
Mrs N. H. Parry..............£20.00
Mr a Mrs I. Roberts..........£20.00
Mrs Enid Hughes Jones........£25.00
Mrs O. Jones.................£25.00
Miss Ann Roberts.............£50.00
Dr a Mrs J. G. Williams......£100.00
Mr. D. Ll. Rees..............£500.00

**Cyfeillion yr Apêl**

Casgliad Te Adfent 1.12.13 yng nghartref
Dr. Pat Williams.......£205.00
Ted Clement Evans, Aigburth £100.00
Mr a Mrs John Lyons, Knowsley £100.00
Mr. Ken Williams, Gateacre, Lerpwl £50.00
Mr a Mrs Di Jones, Rhiwbina, Caerdydd £20.00
Mrs Undeg Cole, Abertawe...£10.00
Mrs Marged Jones, Penbedw..£15.00
........ **£1,305.00**

**Derbyniadau yn 2014**

**Aelodau Eglwys Bethel Heathfield Road/ Auckland Rd, Lerpwl**

Parch Athro Dr. D. B Rees a Mrs M. Rees £500.00
Mr. E. G. Owen, Calderstones £385.00
Mr Roderick a Mrs Norma Owen £100.00
Miss M. Powell, West Derby..£50.00
Mr. W. McEvoy...............£25.00
Miss C. Jones...............£20.00
Mrs E. Jones................£15.00

**Cyfeillion yr Apêl**

Miss Margaret Rowlands, Bethania, Lerpwl...................£10.00
Mrs B. W. Roderick, Llwydcoed, Aberdar £10.00
Mrs Margaret Jones, Baglan ger Port Talbot...................£25.00
Mrs Elsie Buckley, Llandrillo yn Rhos £50.00
Mrs Glenys Jones, Pwllheli..£20.00
Miss Brenda Williams, Porth Tywyn £5.00
Anne a Geraint Roberts, Rhuthun £30.00
Parch Tom a Catherine Wright, Wrecsam £15.00
Meurig Voyle, Dinbych.......£10.00
Mr a Mrs Williams, Abergele..£20.00
Mrs D. Jones, Rhuddlan......£20.00
Mr. T. L. Thomas, Caernarfon £20.00
Eglwys Bethania, Waterloo, Lerpwl £150.00
Mrs Ann Jones, Bebington....£25.00
Mrs Eirwen Sargaent, Penbedw £10.00
Mrs Betty Thomas, Llandudno £20.00
Mr G. J. a Mrs Marian Lloyd Jones, Capel y Groes, Wrecsam..£50.00
Mr. Elwyn Jones, Nant Peris £20.00
Cymdeithas Cymry Lerpwl...£100.00
Ieuan a Margaret E. Willams, Cerrigydrudion............£20.00
Mrs Mair Lloyd Davies, Penrhos, Pwllheli £10.00
Mr Eddie a Mrs K. M. Owen, Y Fali, M n £25.00
Parch Geoffrey Davies, Lerpwl £25.00
Mr. J. I. Jones, Penrhyncoch, Ceredigion £25.00
Mrs Morfydd Willams, Moreton £25.00
Eglwys Annibynol yr Allt Wen ger Pontardawe.......£100.00
Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies, Ton Teg ...................£50.00
CECLAC (Cyngor Eglwys Lerpwl a r Cyffiniau) £300.00
Nia Rhosier, Pontrobert, Maldwyn £20.00
Anne Hunt, Manceinion......£30.00
Mrs C. E. Dodd, Abertawe...£25.00

# Dyddiau Cynnar Penmachno

## GAN BRIAN THOMAS (MOSSLEY HILL) – PENNOD 4

**Teyrnged i fy Mam**

Mae'n rhaid imi yn yr atgofion hyn roddi teyrnged i fy Mam a gair am fy Nhad. 'Roedd o ychydig hŷn na fy Mam, deng mlynedd o wahaniaeth yn eu hoed, ac 'roedd wedi gweld dioddefaint y Rhyfel Mawr, wedi bod ynghanol gyflafan y Somme ac yn Passchendale.

Daeth adref yn heddychwr mawr, ac ni feiddiai ladd dim byd, nid hyd yn oed pryfetyn. Byddai yn eu dal yn fyw, ac yn eu cario allan. 'Roedd criw ohonom fel teulu, saith o blant, chwech o hogiau a dim ond un ohonynt yn angel. Ei gerydd waethaf, wrth roi ffrae inni oedd deud wrthym am fod yn hogyn da. Felly, 'roedd rhaid i rhywun gadw trefn arnom. A'r un a ddewisodd y swydd gyda brwdfrydedd oedd Mam. Pan oedd Mam ar y 'warpath' hei lwc. Ei gluo hi am y drws fyddai oreu, a'r diweddaf allan yn ei chael hi. Cofiaf gael fy nal wrth y drws yn dda, a chael clustan go lew, ac yn pledio drwy 'nagrau, "wnês 'i ddim byd", a'r ymateb oedd, "Wel mi wneith hi at tro nesa 'ta." Cofiaf amser arall pan oedd fy mrawd Gareth wedi cael rhyw ffrwgwd efo mab Pirs Ifans, a hwnnw'n dod at y drws i gwyno fod Gareth wedi rhoi cweir i Huw, ei fab. Ei hymateb y tro hwnnw oedd, "Wel cerwch adref wir Pirs Ifas, cyn i chwi gael cweir hefyd, 'fydd y plant ma'n ffrindia eto 'fory, a mi fydda 'ni 'di ffraeo am byth." 'Roedd gan Tom, fy mrawd hanes amdani yn taflu fforcan fwyd ato, a honno yn sticio'n'i fraich. Yn ddiweddar ar y teledu, 'roedd y Parch Emlyn Richards yn sôn am ei nain yn poeri cymaint fel y buasai'n y jêl y dyddiau yma. Wel dwi'n hollol sicr mai Mam fuasai'n y gell 'gosa ati.

Beth oeddem yn ei wneud oedd mor ddrwg? Wel 'doeddem ni ddim yn meddwl eu bod nhw mor ddrwg yr adeg hynny; ond dyma hanes un o'm drygau. 'Roedd Merfyn a mi, yn amlwg heb ddigon i'w wneud rhyw ddydd, ac am rhyw reswm aethom i iard y cwt ffôn yn ffordd Cwm, a hel pentwr o gerrig. Wedyn aethom at ffrynt y cwt, a malu pob ffenest yn y drws tua deg o wydrau bach. Ac wedyn aethom i'r cefn a malu pob ffenest yn nhy ôl y cwt, tua ugain paen. Cawsom mae'n debyg, lawer o foddhad yn gwneud hyn. 'Dwi ddim 'di gorffen eto!! Ar ôl cyrraedd adref mewn rhyw awr neu ddwy, pwy oedd yn eistedd efo Mam o flaen y tân, ond Edwards Plismon. "Dio'n iawn Mrs. Thomas? meddai'r Plismon. "Ydi." meddai Mam, a dyma'r plismon yn gafael yn nhu ôl fy 'ngwddf, a mynd a fi i fyny'r grisiau yn tŷ ni!! Ac yn rhoi chwip din imi, a'm rhoi yn fy ngwely, a deud, "Ti ddim i godi tan 'fory, a phaid ti byth a thorri ffenest neb eto." Ac yn wir ichwi 'dwi ddim yn cofio malu ffenest neb yn bwrpasol wedyn. Dwi'n cofio, blynyddoedd wedyn, ofn mynd yn foel, rhag ofn i bobl weld faint o greithiau oedd gennyf ar fy mhen. Cofio mynd i hel cnau i geunant Bennar. Mynd i fyny'r goeden a hel gymaint a fedrwn, wedyn, gweld jogyn chwech ac ymestyn amdano, colli fy malans ac i lawr a fi, ar fy mhen i'r ffos oedd yn rhedeg i lawr y ceunant, a'm traed yn sownd wrth frigau'r goeden. Cael fy hun yn rhydd, ac wedyn gweld y gwaed, wedi cymysgu â'r dŵr yn rhedeg i lawr fy ngwyneb. Dychryn a rhedeg adref, pasio'r ffermwr wrth fuarth y fferm, a deud, "welwch, dwi'n waed i gyd," a chael dim cydymdeimlad ganddo, am imi redeg drwy'i gae ŷd o. Cofio llithro wrth gleimio dros giat uchel allan o gae Ty'n Ddôl, a rhwygo blaen croen fy mys, nes oedd yn pistillio gwaedu, a rhedeg adref i gael cysur Mam. Nid oedd Mam adref ac yn mynd i drws nesaf a chnocio ar y drws. Maggie Grace yn agor y drws, finnau'n deud, "Spiwch?" ac yn dangos asgwrn fy mys iddi drwy godi'r croen. A hithau'n llewygu yn gacen wrth y drws. Finnau'n meddwl ei bod hi wedi marw, canys welais i neb yn llewygu cyn hynny.

Weithiau byddem yn mynd am dro i fyny Ffordd Cwm, i gyfeiriad Cwm Penmachno. Ac un o'n diddordebau yr adeg hynny fyddai torri potiau telegraph. Polion mawr Telegraph, a chroes breniau ar draws y top, a phot bach ceramic yn dal pob weiren. 'Roedd pob polyn yn dal tua deugain o'r potiau bach hyn. Y gêm oedd, pan oeddem o olwg y pentref, oedd gweld pwy a allai dorri y rhan fwyaf o'r rhain. Dwi'n cofio'n dda mai fy ffrind Alec, oedd y goreu, o ddigon, am wneud hyn. 'Roedd o'n gallu malu dwsinau ohonynt, 'roedd ganddo em mor dda. A hefyd gallai daflu carreg o'r ffordd fawr dros yr afon i gae Cae Gwyn. 'Roedd hynny'n dipyn o gamp ym myd hogia Penmachno, 'doedd neb arall yn gallu. Alec, hefyd oedd yr un goreu am chwarae marblis, doedd ganddo em mor dda. Byddai ganddo gannoedd o farblis erbyn diwedd y tymor chwarae. Efo, gyda llaw, oedd y goreu am chwarae 'pitch and toss' hefyd. Fe ddysgom yn sydyn iawn, i beidio a chwarae yn ei erbyn. Ond 'roedd ganddo un peth nad oedd yr un ohonom yn ei chwennych, 'roedd ganddo Dad brwnt iawn, a byddai cefn Alec druan yn gleisiau glas yn aml. Byddai ôl strap trowsus ei Dad yn lliw

## Digwyddiadau ar y Glannau yn yr Hydref

Cyfarfod Dosbarth Lerpwl o Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

***Oedfa o Fawl a Myfyrdod i Ddathlu Bywyd Thomas Charles (1755-1814), Bala.***

Cenir ei emynau ac emynau ei frawd a cheir cyfraniad gan Gantorion Bethel.

*Bydd yr oedfa ar bnawn Sul, 21 Medi 2014 am 10.30 o'r gloch. Lluniaeth i ddilyn.*

**CYMDEITHAS ETIFEDDIAETH CYMRY'R GLANNAU**

yn cynnal Cyngerdd

**ar nos Sadwrn, 25 Hydref am 7.30 o'r gloch**
**yng Nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl**
**Artistiaid – Côr Tŷ Tawe o ddinas Abertawe.**

Rhoddwn groeso y ddinas i'n cyd-Gymry

eirias ar ei gefn. Bu Alec druan farw yn weddol ifanc, wedi cael afiechyd hir o ddioddef efo'r diciau.

Yn awr 'dwi am orffen fy atgofion efo hanes gorymdaith mochyn Merfyn. 'Roedd gan lawer o deuluoedd yr adeg yma, gwt mochyn yng ngwaelod eu gardd gefn. Ac un felly oedd gan Nain a modryb Merfyn yng Nghwm Road. 'Roedd Merfyn yn byw efo'i Nain a'i fodryb am fod ei Fam wedi marw pan oedd yn fachgen bach. 'Roedd y ddwy ohonynt yn ferched annwyl a charedig iawn, ac mi fyddent yn cadw mochyn am rhyw ddwy flynedd cyn cael un newydd. 'Roeddem ni'r plant yn adnabod y mochyn yn dda, canys byddem yn mynd a bwyd iddo'n achlysurol, pethau fel croen tatws a moron a dafnion bwyd eraill. A gwyddom yn iawn pa bryd y byddai ei dynged yn agoshau. Byddai sôn am ddyddiau am ddiwrnod ei ladd. Byddem yn paratoi at y dydd gan fynd i'w weld yn amlach. Jones Bwtsiar, fyddai'n cymryd y rhan flaenllaw ar yr achlysur, a byddai'n gwneud yn siwr fod y diwrnod yn un i'w gofio. Ar y Nos Wener, byddem yn mynd i ddweud ffarwel wrth y mochyn efo'n gilydd, byddai Gwynfor wedi trefnu'r amser i gwrdd, a mynd a rhywbeth ecstra efo ni i'w roi i'r mochyn. Naw o'r gloch fore Sadwrn oedd yr orymdaith i ddechreu. 'Roedd tua chwarter milltir o ffordd o dŷ Merfyn drwy'r pentref, heibio'r Eglwys a thros y bont i lard Jos Bwtsia, ac 'roedd yr orymdaith yn union fel un y "Pied Piper of Hamelin". 'Roedd degau yn y fintai, a Jôs yn y canol, yn ei got wen, wel bron yn wen, wedi rhoi llinin rownd coes ôl yr anifail, a ffon ganddo i brocio'r mochyn i wneud iddo fynd yn ei flaen. Fel y gŵyr y rhai sydd a chefndir amaethyddol nid gorchwyl hawdd yw tywys mochyn i fynd i'r lle y mynoch. Mae eisiau mynd i bob man arall. A phob tro 'roedd yn cael ei brocio i fynd y ffordd gywir, byddai'n dangos ei anfodlonrwydd gyda phob math o sgrechiadau blin. Felly y byddai yn cael ei arwain, a'r dorf yn cynyddu fel yr ai yn nes at ei dynged. Wedyn cyrraedd Siop Chips a throi i'r chwith am yr iard. 'Roedd y mochyn yn gwybod erbyn hyn, nad oedd pethau'n argoeli yn rhy dda iddo, ac yn dangos hynny drwy fod yn fwy 'styfnig nag arfer. Mae'n debyg nad oedd y twrw a'r mwg berwi dŵr yn dod o'r iard yn helpu. 'Roedd y mochyn yn yr iard ychydig wedyn, a'r dorf wedi stopio gyferbyn a'r wal, i weld yr orchwyl fel Rhufeinwyr yn y Coliseum, Wedyn dyna ichwi le!! Clymu dwy goes y mochyn, a'i godi gyda, 'Block and Tackle', nes ei fod yn hongian a'i ben i lawr.

Wrth gwrs 'doedd y mochyn druan ddim yn hoffi hyn, a byddai ei sgrechian annaearol yn atsain drwy'r dyffryn. Coeliwch neu beidio, byddai Jôs yn arwain ei gynulleidfa fel pe buasai yn gweithio i Bertram Mills, yn bowio ac yn gorchesta fel arweinydd band. Mae'n ddrwg gennyf os oes rhai darllenwyr dipyn yn groen denau, ond 'does ddim ond un ffordd i ddweud y stori, ei disgrifio yn union fel y bo. Wedyn byddai'r hen fwtsiar yn cyflawni y 'coup de grace' i'r anifal druan, ac yn cael 'cheers" gan y dyrfa am ei orchest. Wedyn, byddai'n gwaedu'r peth bach, ac yn defnyddio'r dŵr poeth i siafio'r blew oddiar gorff yr ymadawedig, cyn ei ddienyddio a'i orffen. 'Roeddem ni'r plant yn rhan bwysig o'r garnifal yma. Ni oedd y gynulleidfa. Ac wedyn, edrych ymlaen i'r diwrnod pan fyddai Nain Merfyn yn cael mochyn newydd, ac yn mynd yno i'w gyfarch, ac i'w adnabod.

Amser braf, amser hudol oedd fy mhlentyndod cynnar a gwn eich bod chwithau hefyd wedi cael plentyndod mor hwyliog ac a gefais ym Mhenmachno a'r cwm hudolus.

*(diwedd)*




**LLYTHYR I'R PARCHEDG ATHRO DR. D. BEN REES**

*Neuadd y Ddinas, Lerpwl L2 3SW*
*10 Mehefin 2014*

**FFARWEL A DIOLCH YN FAWR**

*Annwyl Ben,*

Wel, dyma ni, ar ôl 13 mis ar ddeg fel Arglwydd Faer y ddinas orau yn y byd, y cyfrifoldeb wedi dod i ben! Bu yn fraint yng ngwir ystyr y gair a'r swydd orau bosibl. Yr wyf yn ysgrifennu i ddiolch i chwi am fod yn rhan o'r flwyddyn ac am i chwi ychwanegu i'm aml brofiadau.

Bu staff Neuadd y Ddinas yn ardderchog, felly hefyd fy nghynorthwywyr a fu'n codi'r arian, fy nghydweithwyr, y gwirfoddolwyr, y rhai a fu'n haelionus, y cyfryngau a LCVS. Dyma'r tîm a'm cynorthwyodd i fynychu 1500 o ddigwyddiadau, i godi y swm o £300,000 i'r elusennau ac i gyfarfod a chymaint o bobl sydd yn cyflawni gymaint o bethau ardderchog.

Cefais amser arbennig wrth fod yn "Ddinesydd Cyntaf" Lerpwl ac yn Llysgennad. Fel y gwyddoch y mae fy rhan fel Arglwydd Faer yn ddi-wleidyddol ac yn ddi-duedd ac yn ddinesig – cynrychioli'r ddinas yn hytrach na Chyngor y Ddinas. Gallwn ddweud fy mod y cael y fraint o wneud y pethau hyfryd. Y mae symbol y swydd "Chain of Office" yn cael ei adnabod hefyd fel "bling" yn rhan fawr o hanes 140 o flynyddoedd. Yn wir y mae yn rhyfeddol fel y mae'r swydd yn eich arwain ar restr bron pob digwyddiad a thrwy rhan fwyaf o'r drysau!

Pan dderbyniwch y llythyr hwn byddaf wedi symud i swydd newydd a phwysig yn y Cabinet ar ran Busnes, Buddsoddiad a Menter, yn gweithio llaw yn llaw gyda'r Maer Anderson a'i dîm. Golyga hyn y bydd fy ngwaith fel llysgenhad yn parhau ac yr wyf yn edrych ymlaen i weithio gyda fy ffrindiau newydd. Yr wyf yn grediniol gredu y medrwn gyda'n gilydd wneud gwahaniaeth dybryd i'r ddinas anhygoel hon.

Os gallwch arbed yr amser hoffwn i chwi anfon negeseuon e-bost i mi i ……………………………… Dyma fy rhif ffôn symudol 07……………. Gellwch ddod o hyd i mi ar Llyfr y Gwyneb (Facebook) a'r Trydar ……………………… Fy nghyfeiriad yn Lerpwl ydyw ……………………………………………………… Diolch yn fawr ianwn i chwi!

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Gary Millar,*
*Arglwydd Faer*

[Ôl-Nodiad: Teimlwn fel Golygydd fod y llythyr personol hwn yn bwysig i'w gyfieithu i gylch ehangach, ac yn arwydd o'r gwerthfawrogiad o du arweinwyr y ddinas i fy ymdrechion i ofalu fod y gymuned Gymraeg yn cael ei chofio. Y mae'r llythyr gwerthfawrogol hwn yn brawf diymwad o'r bartneriaeth sydd rhyngom a gobeithiaf y gwnaiff hynny barhau y flwyddyn nesaf o dan arweiniad yr Arglwydd Faer Newydd, y Cynghorydd Erica Kemp, un yr wyf yn ei adnabod ers chwarter canrif – Gol.]

# *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

• **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Hydref 2014 –** erbyn bore Sadwrn, 30 Awst neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Tachwedd 2014 –** erbyn bore Mercher,, Hydref 1 – y lluniau, adroddiadau etc.


**iii) Rhifyn Rhagfyr/Ionawr 2015** – erbyn bore Gwener, Hydref 31 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn cyrraedd Llanuwchllyn ar 1 Tachwedd.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk


***Cyfrol Hardd ar gyfer Eisteddfod Llanelli***
***Clamp o gyfrol ar y ffordd.***

## Cofiant Jim Griffiths
## Arwr Glew y Werin

**gan D. Ben Rees**




Cyhoeddwyd gan y Lolfa,
Talybont, Ceredigion.
Gweler gwefan
www.ylolfa.com

Rhif y llyfr Clawr Meddal
978-1847719010
Pris: £14.95
Clawr Caled 978 9 84771.
Pris: £24.95

Tudalennau - 350



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*



# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514